# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu yng Nghymru:

# Cynhwysiant Cymdeithasol

Gan Dave Adamson, Prifysgol Morgannwg; Sue M.B. Davies, Coleg Prifysgol y Drindod;
Anita Pilgrim, Prifysgol Morgannwg; Tracy Thomas, Coleg Prifysgol y Drindod

Golygwyd gan John Furlong, Prifysgol Rhydychen, 2010

Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru
Welsh Education Research Network

T·L·R·P
TEACHING & LEARNING RESEARCH PROGRAMME

E·S·R·C
ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu yng Nghymru

**Tystiolaeth ymchwil ar gyfer polisi ac arfer addysgol yng Nghymru**

Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) (www.tlrp.org/), a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), yw'r rhaglen ymchwil addysgol fwyaf a gomisiynwyd yn y DU erioed. Roedd y rhaglen yn cynnwys 52 o brosiectau mawr gwahanol, yn cwmpasu pob rhan o'r system addysg o'r blynyddoedd cynnar i ddysgu gydol oes.

Wrth i'r TLRP ddirwyn i ben, daeth yr ESRC, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Rhwydwaith Ymchwil Addysgol Cymru (WERN) ynghyd i gomisiynu prosiect terfynol a gynlluniwyd i ystyried goblygiadau canfyddiadau'r rhaglen ymchwil fawr hon ar bolisi ac arfer addysgol yng Nghymru.

Mae pedwar tîm o ymchwilwyr o bob cwr o Gymru wedi adolygu canfyddiadau'r TLRP mewn perthynas â phedwar maes allweddol o bolisi Cymru a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chafodd y gwaith hwnnw ei gydlynu gan John Furlong o Brifysgol Rhydychen.

Y pedwar maes polisi oedd:

- Y Cyfnod Sylfaen
- Gwella Addysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 7 a 14 oed
- Cynhwysiant Cymdeithasol
- Gwella Dysgu drwy Ystyried Safbwyntiau Dysgwyr.

Canlyniad yr adolygiadau yw cyfres o bosteri a phapurau briffio i gyflwyno canfyddiadau'r rhaglen ymchwil fawr hon i lunwyr polisi ac ymarferwyr ledled Cymru. Mae'r adroddiadau'n cynrychioli canfyddiadau timau ymchwil annibynnol; felly, nid ydyn nhw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Crynodeb Gweithredol

Mae dylanwad y gair 'cynhwysiant' wedi cynyddu, ac mae wedi'i ddefnyddio'n gynyddol aml, ym maes addysg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gallai'r term gyfeirio at fyfyrwyr anabl neu'r rhai ag anghenion addysgol arbennig; gallai gael ei ddefnyddio mewn ymateb i waharddiad disgyblu; a defnyddir y term yn gyffredinol, gan gynnwys yn yr adroddiad hwn, wrth ddiffinio gostyngiad yn y rhwystrau i ddysgu ar gyfer pob grŵp yr ystyrir ei fod yn agored i allgáu[i].

Mae llunwyr polisi cymdeithasol wedi defnyddio'r term 'allgau cymdeithasol' yn helaeth i ddisgrifio patrymau tlodi ac anfantais newydd a chymhleth sydd wedi dod i'r amlwg ym Mhrydain ôl-ddiwydiannol. Yn y cyd-destun hwn, mae cynhwysiant cymdeithasol yn cyfeirio at y broses o ddatblygu polisïau a strategaethau i ailgysylltu pobl sydd wedi'u hallgáu â chymdeithas brif ffrwd ac â'r holl wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg[ii].

Mae ein hadolygiad o'r Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) yn ystyried tystiolaeth am y ffordd o wella perfformiad addysgol y rhannau o'r boblogaeth sydd o dan yr anfantais fwyaf. Ymhlith rhain mae'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is neu gymunedau lleiafrifoedd ethnig, y rhai ag anableddau, a hunaniaethau eraill sydd o dan anfantais yn y system addysg ar hyn o bryd.

Mae gan bob un o'r prosiectau yn y TLRP ganfyddiadau a all awgrymu sut y gallwn wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac mae'n bosibl bydd hyn o fudd i ddysgwyr a all fod mewn perygl o gael eu hallgáu. Fodd bynnag, ar gyfer yr adolygiad hwn, rydym wedi dewis canolbwyntio ar brosiectau sy'n ymdrin â materion sy'n uniongyrchol berthnasol i gynhwysiant cymdeithasol. O'r adolygiad o brosiectau'r TLRP, rydym wedi nodi tair thema allweddol ar gyfer polisi ac arfer yng Nghymru: *Model addysg amgylchedd cyfan, Yr ymarferydd cynhwysol,* a *Yr angen am waith amlasiantaeth.*

Mae'r themâu hyn yn sail i adolygiad o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion cyfredol ac yn awgrymu modelau gweithredu a all hwyluso'r broses o ddatblygu arfer addysgol cynhwysol yng Nghymru.

## 1.
## Canfyddiad allweddol:

**Model addysg amgylchedd cyfan**

Mae model addysg amgylchedd cyfan, sy'n gosod y sefydliad dysgu a'r dysgwr yng nghyd-destun ehangach cydberthnasau yn y cartref a'r gymuned ac sy'n cydnabod eu heffaith ar y broses ddysgu, yn hollbwysig. Mae canfyddiadau'r TLRP yn nodi sawl her a wynebir gan ddysgwyr o dan anfantais. Maen nhw'n awgrymu mai un ffordd bwysig o ymdrin â'r heriau hyn yw drwy leihau'r gwahanu a wynebir yn aml gan ddysgwyr rhwng eu bywyd yn y cartref a'u bywyd yn yr ysgol.

### Prif oblygiadau:

Mae angen i addysgwyr gydnabod, os cyflwynir gwybodaeth ac arferion diwylliannol y gymuned i fywyd yr ysgol/coleg, gallan nhw ddod yn ased sy'n gwella'r cwricwlwm a ddarperir, yn ennyn diddordeb dysgwyr, ac yn grymuso'r rhai a all fod yn cael eu hallgáu.

## 2.
## Canfyddiad allweddol:

**Yr ymarferydd cynhwysol**

Mae ymchwil y TLRP yn ystyried yr her o wella arfer cynhwysol athrawon a sut y gellir ateb yr her hon. Mae'r astudiaethau a adolygwyd yn argymell y dylid defnyddio 'ymchwil weithredu', a all alluogi athrawon i ail-werthuso gwerthoedd, barn ac arferion proffesiynol a meddwl am ragdybiaethau cyffredin a'u herio, er mwyn datblygu sgiliau a safbwyntiau proffesiynol newydd.

### Prif oblygiadau:

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol greu amodau ar gyfer cyflwyno ymchwil weithredu a sicrhau yr ymgysylltir ag athrawon yn barhaus.

## 3.
## Canfyddiad allweddol:

**Yr angen am waith amlasiantaeth**

Mae prosiect y TLRP a adolygwyd yn awgrymu bod cydweithredu mwy effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol addysgol ac amrywiaeth eang o asiantaethau yn effeithio ar brofiad y dysgwyr. Mae'n nodi hefyd y gellir datblygu mwy o gydweithrediad drwy sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn fwy ymatebol ac agored; datblygu dulliau a phrosesau newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth; cynyddu ymwybyddiaeth ymarferwyr o'u sgiliau proffesiynol eu hunain a sgiliau proffesiynol pobl eraill; ac, yn anad dim, cael ffocws clir ar anghenion y plentyn mewn cyd-destun eang.

### Prif oblygiadau:

Gall gweithwyr gofal proffesiynol ac awdurdodau lleol fanteisio ar gydweithredu amlasiantaethol fel cyfle i ddatblygu ffyrdd newydd a helaeth o gydweithio a fydd o fantais i les y plentyn.

# Y Dystiolaeth Ymchwil

## 1. Model addysg amgylchedd cyfan

**Prosiectau yr ymgynghorwyd â nhw:**

***Llythrennedd Dwyieithog ar gyfer Dysgu mewn Addysg Bellach***
www.tlrp.org/proj/martin-jones.html

***Dysgu Cymunedol mewn Colegau AB***
www.tlrp.org/proj/phase111/gallacher.htm

***Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol a Thrawsnewid Addysg Gynradd***
www.tlrp.org/proj/phase11/phase2e.html

***Y Rhaglen Hunaniaeth a Dysgu***
www.tlrp.org/proj/phase111/ILP.html

***Bywydau Dysgu: Dysgu, Hunaniaeth a Gweithredu yng Nghwrs Bywyd***
www.tlrp.org/proj/phase111/biesta.htm

***Pwysigrwydd Hanesyddol, Gwleidyddol ac Addysgol Llais y Dysgwr***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1esept.html

***Deall a Datblygu Arferion Cynhwysol mewn Ysgolion***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1asept.html

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

Mae llawer o ymchwil y TLRP a adolygwyd yn nodi bod y canlyniadau sy'n deillio o addysg yn ddibynnol ar ryngweithio cymhleth rhwng y dysgwr, y lleoliad addysgol a'r amgylchedd cymdeithasol ehangach. Mae'r rhyngweithio o ddydd i ddydd rhwng y dysgwr a'r teulu, ffrindiau a'r gymuned i gyd yn cyfrannu at ddatblygu hunaniaeth y dysgwr a'i gynnydd addysgol. Felly, mae'r canfyddiadau yn awgrymu na ellir cyfyngu effeithiolrwydd addysgol i newid mewn ysgol neu goleg, ond bod yn rhaid sicrhau bod y lleoliad addysgol yn ymwneud â'r amgylchedd ehangach hwn.

## Y Prosiect Bywydau Dysgu (LLP)

Mae'r prosiect TLRP hwn yn rhoi gwybodaeth werthfawr am gymhlethdodau dysgu dros oes unigolyn. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar y ffordd mae pobl yn dysgu drwy fyfyrio ar eu bywydau: caiff myfyrio ei ysgogi gan ddigwyddiadau pwysig sy'n newid bywyd ond nid yn unig ganddyn nhw[iii]. Mae'n nodi pwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol ar gyfer dysgu – gan gynnwys y teulu, y gymuned leol, gweithleoedd, sefydliadau addysg, gweithgareddau hamdden a gweithgareddau gwirfoddol.

Mae canfyddiadau'r prosiect yn mynd ymlaen i nodi fod dirywiad y diwylliannau dysgu mae rhai pobl yn ymwneud â nhw yn gyfyngiad mawr ar eu dysgu[iv]. Awgrymir bod cymorth personol wedi'i gynllunio'n benodol i'r dysgwr yn ffordd amlwg o leddfu hyn. Gall y cymorth ddod o gyfeiriad cymhorthfa benodol neu drwy arferion anffurfiol y rhwydweithiau cymdeithasol o ffrindiau, cydweithwyr, teulu a'r gymuned leol. Mae'r ymchwilwyr o'r farn gall defnyddio technoleg wella cyfleoedd am ryngweithio cymdeithasol, cydweithredu a gweithgareddau dysgu a rennir; er enghraifft, nodwyd gall fod yn well gan ferched ifanc sydd wedi cael plentyn ddysgu gartref, a gallan nhw gael budd o gymorth ar-lein.

Nodwyd y gall cyswllt â diwylliannau dysgu cyfoethog fod yn anodd i'r sectorau mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas. Ni chaiff pobl nad ydyn nhw mewn gwaith, gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, ac efallai na all y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig fanteisio ar amgylcheddau dysgu ffurfiol neu anffurfiol o ansawdd uchel. Argymhellir bod gweithgareddau lleol neu weithgareddau allgymorth yn hollbwysig er mwyn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu a chymorth personol. Er enghraifft, mae gan gyfleuster dysgu lleol a/neu ddarpariaeth chwaraeon, botensial mawr i wella diwylliant dysgu ardal canol dinas neu gymuned wledig ynysig. Yn ogystal â rhoi cyfleoedd dysgu 'unigol' ffurfiol (a all fod yn gysylltiedig â menter ariannu benodol, er enghraifft), gall sicrhau parhad ac adnodd parhaus ar gyfer y tymor hwy.

## Y Prosiect Dysgu Cymunedol mewn Colegau Addysg Bellach (CBL)

Mae canfyddiadau'r prosiect CBL yn atgyfnerthu hyn. Mae'r astudiaeth hon yn rhoi tystiolaeth bod Canolfannau Dysgu Cymunedol yn gysylltiedig â cholegau Addysg Bellach (AB) yn rhoi amgylchedd dysgu sy'n effeithiol iawn o ran ailennyn diddordeb dysgwyr sy'n oedolion sydd mewn perygl o gael eu hallgáu. Y rheswm dros hyn yw bod Canolfannau Dysgu Cymunedol yn fach, yn hygyrch, ac yn fannau cymunedol ag awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol. Mae tiwtoriaid yn cynnig cymorth sy'n meithrin hyder y dysgwr ac yn ymestyn i fywydau personol, emosiynol a chymdeithasol y dysgwr. Mae'r ymchwilwyr yn argymell dylid rhoi mwy o statws i'r math hwn o leoliad addysgol yn y system AB, ac y dylid neilltuo mwy o adnoddau i roi cyfarwyddyd, mentora a chyrsiau pontio i fyfyrwyr, gan roi cymorth priodol i staff. Mae'r prosiectau LLP a CBL yn dangos pwysigrwydd 'nythu' addysg mewn amgylchedd cefnogol sy'n ystyriol o'r gymuned er mwyn ennyn diddordeb grwpiau sy'n agored i niwed.

## Y Rhaglen Hunaniaeth a Dysgu (ILP)

Astudiodd ymchwilwyr yr ILP grŵp o blant yn ystod eu cyfnod cyfan yn yr ysgol, ac o ganlyniad cafwyd gwybodaeth werthfawr am y rhyngweithio rhwng dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol gwahanol ym mywyd plentyn, a'r rhan allweddol sydd gan yr ysgol i'w chwarae wrth ddatblygu hunaniaeth a dyheadau pobl ifanc. Mae'r ymchwilwyr yn awgrymu mai un agwedd o'r darlun cyfan yn unig yw'r system addysg lle pwysleisir agweddau ffurfiol ar ddysgu yn unig. Dylid osgoi culhau'r cwricwlwm drwy ei seilio ar bynciau neu sgiliau, yn unig gan fod y dystiolaeth yn nodi'n benodol y gall rhoi ffafriaeth annheg i blant sy'n dod o ddiwylliannau sy'n unol â rhai'r ysgol. Mae ymchwilwyr o'r prosiect ILP yn awgrymu dylai'r cwricwlwm gynnwys dehongliad cyfoethog o ddysgu, sy'n cynnwys y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes (megis bod â meddwl agored, hunan fyfyrio a'r gallu i lunio barn); dealltwriaeth am y ffordd i ddefnyddio strategaethau dysgu; a hefyd addysg bersonol, cymdeithasol a moesol.

Wrth wneud hyn, gall y dysgwr feithrin mwy o sgiliau, gwybodaeth a hyder personol.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon wedi cyfrannu at y trafodaethau a lywiodd y newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol yn y DU ers 1999, ac maen nhw'n cynnig tystiolaeth gadarnhaol ar gyfer cyfeirio'r newidiadau cyfredol i'r cwricwlwm yng Nghymru[V]. Mae'r ILP hefyd yn nodi'r stôr o wybodaeth sydd gan deuluoedd medrus yn y dosbarth gweithiol, gan herio'r syniad o rieni anghefnogol o'r dosbarth gweithiol.

## Y Prosiect Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol (HSKE)

Canfu'r prosiect hwn fod athrawon yn aml yn methu â sylweddoli gall fod gan deuluoedd lleiafrifoedd ethnig a dosbarth gweithiol adnoddau a chymorth diwylliannol cyfoethog. Nododd y prosiect y manteision a ddaw yn sgil cyflwyno gwybodaeth o'r cartref i'r ysgol: mae'r rhain yn ategu arfer mwy amrywiol a chwricwlwm wedi'i anelu at sefyllfaoedd bywyd go iawn yn hytrach na sefyllfaoedd ffug yn yr ystafell ddosbarth.

Edrychodd y prosiect ar ffyrdd o drosglwyddo gwybodaeth:

- **O'r ysgol i'r cartref** (h.y. i rieni/gofalwyr): er enghraifft, gwneud fideo o ddosbarth mathemateg a oedd yn dangos i rieni sut caiff mathemateg ei addysgu yn yr ysgol. (Ymhlith y manteision eraill roedd y ffaith bod rhieni yn sylweddoli pa mor galed roedd eu plant yn gweithio yn yr ysgol ac yn dangos mwy o barch at yr athrawon).
- **O'r cartref i'r ysgol,** er enghraifft: anfon blwch esgidiau gartref a gofyn i'r plant ei lenwi â'u hoff bethau, gan gynllunio'r gweithgareddau dilynol ar sail yr eitemau hynny. (Un o'r manteision ychwanegol a welwyd yn dilyn hyn oedd bod plant a oedd yn swil fel arfer yn fwy hyderus wrth siarad am eitemau cyfarwydd).

Canfuwyd bod strategaethau a ddatblygwyd ar gyfer llythrennedd a rhifedd i gynnwys teuluoedd a elwir yn 'anodd eu cyrraedd' yn llwyddiannus iawn mewn sawl achos. Canfuwyd gall cynnwys rhieni yn y ffordd hon leihau rhwystrau rhwng yr ysgol a theuluoedd, gan gynnwys cartrefi o dan anfantais, a thrwy hynny gyfrannu at leihau effeithiau anghydraddoldeb. Cyn belled bod y gweithgareddau yn yr ysgol wedi'u cynllunio'n sensitif, fel nad ydyn nhw'n dibrisio diwylliant y cartref, gallan nhw ddangos i'r plentyn bod diwylliant y cartref a diwylliant yr ysgol yn werthfawr a bod y ddau yn bwysig ar gyfer dysgu. Drwy wneud hyn, mae ysgolion yn cydnabod bod bywyd y cartref (gan gynnwys bywyd mewn cymunedau dosbarth gweithiol) yn ffynhonnell o wybodaeth a dealltwriaeth bwysig ar gyfer dysgu a datblygiad y dysgwyr. Gall gweithgareddau HSKE gael effaith fawr ar gyrhaeddiad plant, er nad oedd yr effaith hon yr un peth ym mhob maes pwnc. Wrth drosglwddo i'r ysgol uwchradd, gwnaeth plant a oedd wedi mynychu ysgolion a oedd yn arddel gweithgareddau HSKE mwy o gynnydd mewn darllen na phlant yn yr ysgolion eraill.

## Y Prosiect Llythrennedd Dwyieithog ar gyfer Dysgu mewn Addysg Bellach

Yn yr un modd, mae'r ymchwil hon yn nodi bod yn rhaid i ddarparwyr addysg fod yn sensitif i anghenion ac arferion y gymuned wrth ddatblygu rhaglenni astudio. Canolbwyntiwyd ar gymuned Gymraeg. Er enghraifft, maen nhw'n awgrymu bod arferion llythrennedd dwyieithog y myfyrwyr tu allan i'r coleg yn fanteisiol fel adnoddau ar gyfer dysgu. Mae'r astudiaeth yn dod i'r casgliad y dylai colegau AB ystyried mathau newydd o gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg, a ffyrdd dwyieithog o ddefnyddio a chynhyrchu testunau wrth ddatblygu cyrsiau newydd.

Yn gyffredinol, canfu adolygiad o'r prosiectau yn gyson, bod cydberthynas gadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol yn hanfodol bwysig – mae'n rhaid i ddysgu fanteisio ar a dwyn gwybodaeth o brofiadau yn y cartref yn ogystal â phrofiadau yn yr ysgol. Yn unol â'r ILP, mae hunaniaeth dysgwyr – sy'n blethiad cymhleth o brofiadau yn y teulu, y gymuned a'r ysgol – yn simsanu pan nad ydyn nhw'n cyfateb â diwylliant addysgu ac arfer academaidd yr ysgol. Mae ymchwilwyr yr ILP yn nodi cyfnodau hollbwysig yng ngyrfa dysgwyr, er enghraifft wrth iddo drosglwyddo i'r ysgol uwchradd neu yn y cyfnod cyn TGAU. Ar yr adegau pwysig hyn o newid a her, mae hunaniaeth ddatblygol y plentyn yn fregus a mwy agored i ddylanwadau da a drwg. Ar yr adegau hyn, pan na fydd hunaniaeth y dysgwyr yn y cartref ac yn yr ysgol yn gyson â'i gilydd, gall hunaniaeth y plentyn ddarnio gan arwain at ganlyniadau negyddol i'r plentyn. Canfyddodd nifer o brosiectau methiant ysgolion a cholegau i ddeall grwpiau sydd mewn perygl o gael eu hallgáu ac i ymgysylltu â nhw:

- Canfu'r ILP nad oedd rieni dosbarth gweithiol yn ddigon hyderus weithiau wrth ymdrin â sefydliadau ffurfiol; roedden nhw'n tueddu i ymddiried yn systemau'r ysgol yn fwy na'r rheini yn y dosbarth canol ac yn tueddu i herio'r systemau hynny yn llai.

- Mae'r prosiect HSKE yn disgrifio sut mae gan ysgolion gamsyniadau anghywir am ddiwylliant cartrefi dosbarth gweithiol a lleiafrifoedd ethnig.
- Mae prosiect Llais y Dysgwr (PV) yn nodi achosion o fethiant addysgwyr cynradd ac uwchradd i ymwneud â materion o ran rhyw ac ethnigrwydd, ond yn anad dim dosbarth cymdeithasol.

Mae'r prosiectau Rhaglen Hunaniaeth a Dysgu a Llais y Dysgwr yn nodi tystiolaeth o densiynau posibl rhwng technegau asesu safonol a hunaniaeth y dysgwr a diwylliant y cartref. Mae arferion asesu safonol yn rhoi grwpiau rhyw, ethnig, cymdeithasol ac anabledd penodol o dan anfantais yn systematig. Hefyd, bydd system asesu sy'n dosbarthu dysgwyr i grwpiau, yn enwedig o'i ddefnyddio mewn ffordd gyfunol, yn tueddu i atgyfnerthu rhaniadau cymdeithasol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae grwpio plant yn ôl 'gallu' ('gosod mewn setiau') yn debygol o waethygu pethau i'r rhai sydd heb eu hintegreiddio'n gymdeithasol gystal ag eraill. Felly, bydd dull asesu mwy hyblyg, ffurfiannol, yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth ehangach o sgiliau, a bydd yn fwy cynhwysol o ran amrywiaeth.

## Y Prosiect Deall a Datblygu Arferion Cynhwysol mewn Ysgolion (UDI)

Mae'r prosiect hwn yn nodi tensiwn rhwng polisïau profi a chodi safonau cenedlaethol, ac arferion cynhwysiant ysgolion lleol. Mae polisïau cenedlaethol yn gofyn am bwyslais ar gyfuno sgorau profion, ac mae arferion ysgolion lleol yn gofyn am ymyriadau mwy unigol sy'n cydnabod hunaniaeth a diwylliant teulu dysgwyr unigol. Yn yr un modd, mewn rhan helaeth o ddysgu i oedolion, ymddengys nad yw'r pwyslais ar ddeilliannau ffurfiol a deilliannau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn berthnasol nac yn cymell llawer o fyfyrwyr ar lefel AB.

Mae'r LLP yn disgrifio sut mae strategaethau a darpariaeth bresennol ar gyfer dysgu ffurfiol i oedolion yn y DU wedi tueddu i ganolbwyntio ar gyrsiau byr a hyfforddiant yn gysylltiedig â chyflogaeth, sy'n bwysig i'r agenda cynhwysiant cymdeithasol. O ganlyniad, efallai na fydd digon o gyfleoedd i'r rhai nad ydyn nhw mewn cyflogaeth, neu'r rhai mewn meysydd lle y ceir llai o swyddi. Mae ymchwilwyr yn nodi tensiwn rhwng nodau polisi sy'n anelu at sicrhau cyflogaeth, newid personol a mwy o gynhwysiant i hyfforddeion, a'r ffocws croes posibl ar gyrsiau hyfforddi byr wedi'u hanelu at ennill cymwysterau sydd wedi'u diffinio'n gul. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu gwahaniaeth rhwng y gwerth a roddir ar ddysgu mewn dogfennaeth bolisi a chanfyddiadau unigol o ran gwerth dysgu ym mywydau pobl. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod pobl yn gwerthfawrogi dysgu am resymau gwahanol â'r rhesymau hynny'n amrywio yn dibynnu ar eu hamgylchiadau newidiol. Efallai mai dim ond cynnal bywyd bob dydd byddan nhw am ei wneud fel arfer, ond gall hyn newid ar adegau pontio pwysig wrth ddatblygu hunanhyder neu hunanhunaniaeth. Mae'r canfyddiadau yn dangos bod angen profiadau dysgu a chyrsiau hwy, a fydd yn annog mwy o gyfranogiad, ac a fydd, yn ei dro, yn fwy tebygol o hyrwyddo a chynnal datblygiad personol. Felly, mae angen sicrhau bod amrywiaeth yn yr ystod o gyrsiau a'r dewis o ddarparwyr sydd ar gael i ddysgwyr sy'n oedolion a hynny gydol oes.

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Model addysg amgylchedd cyfan

**Teitl y prosiect:**

**Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol a Thrawsnewid Addysg Gynradd**

Mae mathemateg wedi'i nodi fel un maes lle gall addysgu yn yr ystafell ddosbarth ddieithrio oddi wrth y profiad o fathemateg mewn bywyd bob dydd[vi].

Yn ystod y prosiect HSKE, anogwyd y dysgwyr i wneud fideo ohonyn nhw eu hunain yn gwneud gweithgareddau bob dydd a oedd yn digwydd cynnwys mathemateg a dod â nhw i mewn i'r ysgol. Dangosodd y fideos hyn amrywiaeth o weithgareddau a wneir yn y cartref, gyda rhai ohonyn nhw'n ymwneud â diwylliant penodol, nad oedd athrawon yn ymwybodol ohonyn nhw:

- Mae athrawon Saqib (sy'n byw ym Mryste) o'r farn ei fod yn 'ddiog' ac o bosib yn dioddef o ADHD. Ond, mae'r fideo ohono'n gwneud ei waith cartref yn dangos bod yn rhaid iddo weithio yn yr ystafell fyw sy'n swnllyd ac yn llawn pobl. Un gweithgaredd mae'n ei wneud yn rheolaidd yw casglu a chyfri'r arian mân sydd wedi cwympo ar lawr tacsi ei dad. Mae'r arian

hwn yn mynd at elusen; mae rhoi i elusen yn un o bum Piler Islam, ac yn ogystal â datblygu ei allu mewn mathemateg, gwelir bod y gweithgaredd hwn yn meithrin ei ddealltwriaeth o egwyddorion y gymuned Fwslemaidd mae ei deulu yn perthyn iddi a'i ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau cymdeithasol ehangach.

- Gwelwyd yn y fideo fod teulu Nadia (sy'n byw yng Nghaerdydd) yn helpu i feithrin ei sgiliau mathemateg mewn sawl ffordd. Gwelwyd sefyllfa ddiddorol lle'r oedd Nadia yn cyfrif gan ddefnyddio cymalau ei bysedd, mewn ffordd Bengalaidd, yn hytrach na defnyddio ei bysedd cyfan, fel mewn diwylliannau Ewropeaidd gwyn. Roedd Nadia yn eithaf swil am y ffordd newydd hon o gyfrif ac nid oedd yn awyddus i lawer yn yr ysgol wybod am hyn.
- Gwnaeth Ellie (ni nodir y ddinas lle mae'n byw) ffilm ohoni hi ei hun yn gweithio allan faint o fwyd byddai'n rhaid i'w chymydog ei roi i'w chath pan oedd ar ei gwyliau. Roedd faint o fwyd i'w roi yn dibynnu ar bwysau'r gath ond pan geisiodd Ellie roi'r gath ar y glorian, roedd bob amser yn cerdded i ffwrdd, felly pwysodd Ellie ei hunan yn dal y gath, wedyn heb y gath, tynnu un ffigur o'r llall ac wedyn lluosi faint o fwyd â phwysau'r gath, a nifer y diwrnodau y byddai i ffwrdd.

**Sylw:**

**Dangosodd y prosiect HSKE fod plant yn defnyddio mathemateg bob dydd mewn llawer o sefyllfaoedd. Rhannodd yr ymchwilwyr y gweithgareddau i dri grŵp: chwarae a gemau, gweithgareddau go iawn yn y cartref, a gweithgareddau a oedd yn debyg i'r ysgol. Roedd chwarae a gemau yn cynnwys llawer o gemau diwylliant penodol a oedd yn ymwneud â chyfrif. Roedd gweithgareddau go iawn yn y cartref yn cynnwys gwaith Saqib i gasglu arian mân, a hefyd helpu rhieni i siopa. Yn ogystal â gwaith cartref a ddarperid gan yr ysgol, roedd gweithgareddau a oedd yn debyg i'r ysgol yn cynnwys y defnydd o lyfrau mathemateg a oedd ar gael yn fasnachol.**

**Cwestiynau allweddol:**

**Sut gall meddwl am y teulu 'anodd ei gyrraedd' newid i feddwl am yr ysgol 'hygyrch'? Pa weithgareddau a fydd yn cyfrannu orau at wella dealltwriaeth athrawon o'r wybodaeth a gaiff ei meithrin yn y cartref a'r gymuned? A ellid addasu'r gweithgareddau pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd a ddefnyddiwyd i hwyluso'r broses yn y prosiect hwn, ar gyfer cyflawni gwaith tebyg wrth bontio o'r Cyfnod Sylfaen i'r cyfnod nesaf?**

## 2. Yr ymarferydd cynhwysol

**Prosiectau yr ymgynghorwyd â nhw:**

***Prosiect Dysgu Cydradd: Hwyluso Ymgysylltiad Athrawon ag Arfer Mwy Cynhwysol***
www.tlrp.org/proj/smbdavies.html

***Pwysigrwydd Hanesyddol, Gwleidyddol ac Addysgol Llais y Disgybl***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1esept.html

***Deall a Datblygu Arferion Cynhwysol mewn Ysgolion***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1asept.html

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

Mae llawer o brosiectau'r TLRP yn nodi natur hollbwysig Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer addysgeg well a'r cyfleoedd mae'n eu rhoi ar gyfer hyrwyddo newid. Er enghraifft, mae canfyddiadau'r prosiect PV yn pwysleisio'r angen i addysg gychwynnol athrawon roi sylw i ddiwylliannau dosbarth gweithiol. Awgrymir bod hyn wedi bod yn un o nodweddion cryf hyfforddiant athrawon tan yn ddiweddar ond mae perygl gall fod athrawon sydd dan hyfforddiant ar hyn o bryd ddiffyg dealltwriaeth am blant o gymunedau sydd o dan anfantais economaidd.

**Deall a Datblygu Arferion Cynhwysol mewn Ysgolion (UDI) a Phrosiect Dysgu Cydradd: Hwyluso Ymgysylltiad Athrawon ag Arferion Mwy Cynhwysol (FTE)**

Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar ddau brosiect ymchwil a fu'n astudio'r ffordd gall datblygu arfer athrawon gynyddu cynhwysiant. Ystyriodd UDI beth oedd gwerth y rhwydweithiau ymchwil weithredu cydweithredol fel dull o ategu datblygiad athrawon. Estynnodd FTE, prosiect yng Nghymru, y ffocws hwn i astudio'r ffactorau a hwylusodd ac a lesteiriodd y defnydd o ymchwil weithredu gan ysgolion uwchradd i ddatblygu cynhwysiant.

Canfu'r astudiaeth FTE, er y gallai athrawon ddiffinio'r term 'cynhwysiant' yn eithaf hawdd, nad oedden nhw mor gadarn ynglŷn â'r hyn yr oedd yn ei olygu'n ymarferol. Mae'r prosiect UDI a'r prosiect FTE yn rhoi tystiolaeth bod datblygu arfer proffesiynol athrawon yn briodol yn gallu helpu i gynyddu cynhwysiant. Mae'r ymchwilwyr yn cydnabod bod datblygu arfer cynhwysol yn gallu bod yn heriol. Y rheswm dros hyn

yw y gall olygu bod yn rhaid i ymarferwyr ailystyried ac ail-werthuso gwerthoedd, barn ac arferion proffesiynol a meddwl am ragdybiaethau cyffredin a'u herio, er mwyn datblygu sgiliau a safbwyntiau proffesiynol newydd.

Nododd y ddwy astudiaeth fod defnyddio ymchwil weithredu yn 'offeryn newid' effeithiol a all greu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhwng athrawon ac i athrawon fyfyrio. Pan fydd ymchwil weithredu yn gweithio'n dda, gwelwyd ei bod yn gatalydd ac yn gymorth i ddatblygu arfer newydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r astudiaeth UDI yn egluro y gall ymchwil weithredu feithrin cyd-destun ar gyfer yr hyn a elwir yn 'amharu'. Mae 'amharu' yn creu lle i ail-werthuso a newid arfer presennol. Mae safbwyntiau dysgwyr yn arbennig o effeithiol fel 'achosion o amharu', am eu bod yn achosi i athrawon oedi a gweld pethau o safbwynt gwahanol a pherthnasol. Canfuwyd, pan gafodd 'lle' bach ei greu yng nghanol holl alwadau eraill bywyd bob dydd yn yr ysgol, gallai athrawon gyfarfod a chydweithredu i gynllunio prosiect ymchwil weithredu.
Byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i athrawon ailystyried rhagdybiaethau, er enghraifft yn seiliedig ar anghenion dysgu ychwanegol/arbennig a dechrau datblygu arfer mwy priodol yng nghyd-destun yr amrywiaeth yn eu hystafelloedd dosbarth. Un o nodweddion cyffredin ymchwil weithredu yw cydweithredu, ac mae'r astudiaeth UDI a'r astudiaeth FTE yn dangos effeithiolrwydd cydweithredu o fewn ysgolion a rhyngddyn nhw.

Nododd UDI gellid rhoi ymchwil weithredu gydweithredol ar waith yn hawdd ar lefel ysgol gyfan mewn ysgolion cynradd, gan arwain at newidiadau o ran meddwl ac arfer, cyn belled bod cymorth ar gael gan arweinwyr yr ysgol, gan yr awdurdod lleol a chan ysgolion eraill. Ar y llaw arall, mewn ysgolion uwchradd, cafwyd llai o dystiolaeth o newid mawr, ac roedd y canfyddiad hwn yn un o'r ffactorau a ysgogodd ddatblygiad y prosiect estynedig yng Nghymru. Gweithiodd FTE, mewn saith ysgol uwchradd i nodi nodweddion allweddol a fyddai'n hyrwyddo effeithiolrwydd mewn grŵp ymchwil weithredu athrawon. Y nodweddion a nodwyd oedd: perchenogaeth athrawon dros y broses; parodrwydd a chymorth gan yr ysgol a'r athrawon eu hunain i hwyluso cydweithredu effeithiol; a rhyngweithio critigol gan yr athrawon â thystiolaeth newydd.

Nodwyd bod agweddau penodol o gynllunio ysgol a threfniadaeth ysgol yn bwysig ar gyfer llwyddiant hefyd – er enghraifft:

Mae angen i uwch reolwyr ddeall a gwerthfawrogi proses ymchwil weithredu ar gyfer datblygu athrawon, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar y canlyniad neu'r cynnyrch. Mae'r ffordd caiff y grŵp ymchwil weithredu ei lunio, ei strwythuro a'i drefnu yn bwysig iawn i gynnal cydweithredu gan athrawon a pherchenogaeth ymhlith athrawon. Er enghraifft, gofynnodd un ysgol i adrannau'r ysgol wneud cais a llunio achos dros gael y prosiect athrawon, a bu hyn yn fuddiol iawn o ran ennyn diddordeb a chefnogaeth yn gynnar. Er mwyn creu effaith ehangach, mae'n rhaid i'r broses barhaus gael ei hymgorffori ym mywyd bob dydd yr ysgol – roedd gan un ysgol fwrdd gwyn yn yr ystafell athrawon a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i athrawon am syniadau a thrafodaethau'r grŵp ymchwil weithredu, ac a oedd yn gofyn am sylwadau (yn ysgrifenedig neu ar lafar) am ddatblygiadau wrth iddyn nhw ddigwydd.

Gwnaeth y ffordd y cafodd yr ymchwil weithredu ei hwyluso wahaniaeth mawr i'r graddau yr oedd athrawon yn ymgysylltu â hi hefyd. Er enghraifft, mae angen i waith trafod a chynllunio'r grŵp gael ei gydgysylltu gan hwylusydd sy'n gwybod am ymchwil weithredu, sy'n deall y materion sy'n effeithio ar gynhwysiant, ac sy'n meddu ar sgiliau hwyluso da. Defnyddiodd FTE seicolegydd addysg yr ysgol – a gyflwynodd safbwynt allanol gwerthfawr i drafodaethau'r athrawon hefyd. Datblygodd y tîm o seicolegwyr addysgol ac ymchwilwyr a weithiodd ar y prosiect FTE ystod o sgiliau hwyluso a amlinellir yn www.educationalinclusion.org

Canfu'r ymchwil fod cynnwys y dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu prosiectau ymchwil weithredu yn arwain at newid cynhwysol i athrawon a dysgwyr. Er enghraifft, canfu'r dystiolaeth a gasglwyd gan ymchwilwyr FTE fod ymgysylltiad athrawon â phrosiectau ymchwil weithredu fel arfer yn cael rhywfaint o effaith ar ddysgu'r dysgwyr, ac weithiau'n arwain at newid sylweddol. Crëir crynodeb o'r wybodaeth hyn, a'r prosiect cyfan, ar wefan Research for Teachers y Cyngor Addysgu Cyffredinol.[viii]

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Yr ymarferydd cynhwysol

**Teitl y prosiect:**

**Prosiect Dysgu Cydradd: Hwyluso Ymgysylltiad Athrawon ag Arfer Mwy Cynhwysol**

Mae Ysgol Main Road yn ysgol gyfun drefol gymysg â 1100 o ddysgwyr. Cydweithiodd tri athro hanes ar y prosiect ymchwil weithredu. Nodwyd ffocws cyffredin, ystyrlon, perthnasol y gellid ei roi ar waith ar gyfer eu prosiect: ennyn mwy o frwdfrydedd dros hanes ymhlith merched. Roedd 'merched wedi dadrithio' yn peri anawsterau a gofid i athrawon mewn gwersi. Cafodd yr athrawon gymorth seicolegydd addysg yr ysgol yn y prosiect. Helpodd i sicrhau bod cynnydd parhaus yn y prosiect drwy gyfarfod â'r athrawon bob hanner tymor, er mwyn hwyluso eu gwaith meddwl

a thrafod eu cynnydd. Yn y sesiynau cychwynnol, eglurodd yr athrawon ymddygiad y merched gan gyfeirio at eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Gwrandawodd y seicolegydd addysg arnyn nhw gan gydnabod eu teimladau ond, drwy ofyn cwestiynau cynnil, eu helpu i feddwl mewn ffyrdd mwy adeiladol. Penderfynodd yr athrawon gwneud dau beth i addasu eu harfer gan obeithio byddai hyn yn ennyn diddordeb y merched – aethon nhw ati i greu cyngor o myfyrwyr ar gyfer y pwnc hanes ond gan sicrhau y câi'r grŵp targed o ferched wedi dadrithio ei gynrychioli. Sefydlwyd 'blwch llais y dysgwyr' hefyd y gallai'r dysgwyr ei ddefnyddio i wneud awgrymiadau dienw ynghylch gwella gwersi.

Roedd effaith y camau gweithredu hyn braidd yn siomedig. Ond roedden nhw'n help i'r grŵp ddechrau meddwl o ddifrif. Lluniodd yr athrawon amserlen i arsylwi ei gilydd yn addysgu'r merched; cysgodwyd rhai o'r merched am ddiwrnod; ac arsylwyd eu hymddygiad mewn gwersi eraill. Nododd y seicolegydd addysg: 'Roeddwn i'n gyffro i gyd ar ôl cyfarfod â'r grŵp hanes yn Main Road yr wythnos yma – maen nhw'n gwneud pethau diddorol drwy'r amser, ac roedd eu myfyrdod dros y rhesymau am y newid yn ddiddorol!'

Dechreuodd sylwadau'r athrawon symud o'r duedd i roi'r bai ar y dysgwyr, gan ddibynnu'n fwy ar y dystiolaeth o'r gwaith arsylwi. Dechreuodd eu harfer newid – er enghraifft, nododd un athro, o ganlyniad i hyn, iddo 'ofyn mwy o gwestiynau i'r grwpiau targed, cynnwys mwy o ddrama, gwrando ar lais y dysgwyr, gofyn i aelodau eraill o staff am farn, creu targedau dysgu ar gyfer pob gwers [yn seiliedig yn aml ar ymddygiad yn hytrach na chynnwys pwnc], a threfnu raffl i ennill siocled er mwyn cynnal diddordeb'.

Tuag at ddiwedd cyfnod blwyddyn y prosiect, nododd yr athro ei fod wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chadarnhaol i ddiddordeb rhai o'r merched targed, gan arwain at arferion addysgu ac arsylwi newydd a oedd wedi'u lledaenu i bob rhan o'r ysgol.

**Sylw:**

**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut gwnaeth y ffaith bod yr athrawon wedi myfyrio at y dystiolaeth yr oedden nhw wedi'i chasglu a'i defnyddio, wedi eu helpu i wella eu dealltwriaeth o'r merched. Drwy wneud hynny, newidiodd eu safbwynt proffesiynol o dueddu rhoi'r bai ar ddiwylliant cartref y merched i geisio dod o hyd i'r ateb yn eu harfer eu hunain yn yr ystafell ddosbarth[ix].**

**Cwestiynau allweddol:**

**Beth mae arfer cynhwysol yn ei olygu? Sut mae ymchwil weithredu yn helpu athrawon i fyfyrio ar eu harfer? Pam gallai myfyrio ar arfer newid dulliau dysgu i gynyddu cynhwysiant?**

## **3.** Yr angen am waith amlasiantaeth

**Prosiect yr ymgynghorwyd ag ef:**

***Dysgu mewn Gwaith Rhyngasiantaeth ac ar ei Gyfer***
www.tlrp.org/proj/phase111/daniels.htm

Cyhoeddwyd y prosiect uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

Dysgu mewn Gwaith Rhyngasiantaeth ac ar ei Gyfer (LIW). Mae'r astudiaethau a adolygwyd o dan fodel addysg amgylchedd cyfan yn ategu'r farn bod dysgwyr yn byw mewn byd cymdeithasol cymhleth ac mai dim ond un elfen o'r byd hwnnw yw'r lleoliad addysgol. Mae'r canfyddiadau yn cynnig tystiolaeth o ran pam na ddylai ysgol neu goleg ddod yn seilo lle mae anghenion addysgol ar wahân i anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol ehangach y dysgwr. Mae cydgysylltu effeithiol rhwng agweddau gwahanol ar fywyd dysgwr, yn arbennig dysgwr sydd mewn perygl o gael ei allgau, yn gofyn am waith amlasiantaeth cadarn. Dim ond un partner ymhlith nifer o ddarparwyr gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cynhwysfawr y plentyn fydd yr ysgol a'r athro/athrawes.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth LIW yn nodi ffyrdd y gall gwaith amlasiantaeth wella arfer mewn meysydd proffesiynol cysylltiedig. Mae'r astudiaeth yn nodi patrwm o gydweithredu y cyfeirir ato fel 'cyd-drefnu', lle mae gofyn i ystod o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sydd ond â chysylltiad llac â'i gilydd fel arfer, gydweithredu â phobl ifanc a'u teuluoedd i ddatblygu mathau o gymorth dros gyfnodau estynedig. Mae goblygiad y term hwn yn debyg i'r term 'cyd-gynhyrchu gwasanaethau', a ddefnyddir yn Adolygiad Beecham[x] ac mae'n fodel 'cyfranogol' lle mae cleientiaid yn un elfen o'r cydberthnasau rhyngasianaeth.

Cyfeirir at yr achosion dynamig, hyblyg a newidiol hyn o gydweithredu, sy'n canolbwyntio ar gleientiaid penodol, fel 'cwlwm-weithio', ac maen nhw'n wahanol i gysyniadau confensiynol o weithio mewn tîm neu bartneriaeth. Nodweddir cwlwm-weithio gan arbenigedd wedi'i wasgaru lle efallai nad yw gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am ymyriadau

yn meddu ar yr un arbenigedd, mae'n bosib eu bod o fewn sefydliadau a lleoliadau gwahanol a dim ond cyfarfodydd byr sydd rhyngddyn nhw.

Drwy rannu arbenigedd, gall gweithwyr proffesiynol gwahanol wynebu heriau ac 'achosion o amharu'r ffyrdd derbyniedig o weithio. Proses sy'n annog newid rheolau a datblygu arfer mwy effeithiol. Caiff gwybodaeth a sgiliau unigol eu gwella hefyd, gan hyrwyddo 'dysgu helaeth', lle daw ymarferwyr i rannu arbenigedd proffesiynol ei gilydd. Mae'r ymchwilwyr yn disgrifio nodweddion allweddol y dull gweithredu hwn: bod yn fwy ymatebol ac agored; datblygu dulliau a phrosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth; cynyddu ymwybyddiaeth ymarferwyr o'u sgiliau proffesiynol eu hunain a sgiliau proffesiynol pobl eraill; ac, yn anad dim, ffocws clir ar anghenion y plentyn yn y cyd-destun ehangach.

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Yr angen am waith amlasiantaeth

**Teitl y prosiect:**

**Dysgu mewn Gwaith Rhyngasianaeth ac ar ei Gyfer**

Cynhaliwyd yr astudiaeth mewn amrywiaeth o leoliadau amlbroffesiynol. Er enghraifft, yn ystod y cam peilot, gweithiodd yr ymchwilwyr gyda Thîm Troseddau Ieuenctid a oedd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaethau cymdeithasol, prawf, yr heddlu, rhianta, addysg a chamddefnyddio sylweddau. Cynhaliwyd astudiaethau diweddarach mewn tri awdurdod lleol gwahanol a oedd yn cynnwys lleoliad 'ysgol estynedig', 'tîm plant mewn gofal cyhoeddus' a thîm addysgol amlbroffesiynol.

Elfen ganolog i oblygiadau'r ymchwil hon yw'r ffyrdd mae'r gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i ddatblygu modelau gweithio newydd sy'n herio'r dulliau arferol o weithio. Mae'r darn canlynol o bapur briffio'r LIW 'Ymyrraeth a newidiadau mewn arfer' yn amlygu natur yr arfer proffesiynol sy'n newid, a ddaw i'r amlwg pan mai'r plentyn yw ffocws canolog y camau gweithredu yn hytrach na'r gweithdrefnau sefydliadol safonol.

'For example, an attendance officer made direct (mobile phone mediated) contact with a psychologist in order to ensure that a child who was not attending school could get access to support for the bullying she experienced and her difficulties in learning. The traditional pattern of communication would have been for the attendance officer to ensure the child returned to school (which she did not) and that her difficulties with bullying and learning were reported to the school. The attendance officer 'broke the rule' of instituting attendance procedures and also subverted the traditional pattern of reporting. When the psychologist engaged with the child she also made enquiries at the school, they responded that her [the child's] needs were not a priority and that the school's allocation of psychological support should not be expended on this pupil"[xi].
Er gwaethaf safbwynt yr ysgol, penderfynodd y seicolegydd barhau i ymgysylltu â'r plentyn.

Yn yr achos hwn, gwyrodd y gweithwyr proffesiynol o'r gweithdrefnau arferol er mwyn rhoi blaenoriaeth i anghenion y plentyn. Y rheswm dros hyn oedd bod arferion newydd y Tîm Amlbroffesiynol yn canolbwyntio ar ymrwymiad moesol ac ideolegol i anghenion y plentyn cyfan, yn hytrach na'r gwasanaethau oedd yn bodoli eisoes[xii]. Felly, llwyddodd y swyddog presenoldeb a'r seicolegydd i wyro o'r hen batrymau arfer proffesiynol er mwyn cyflawni'r nod hwn. Mae'n ddiddorol nodi bod hi'n ymddangos nad oedd y gweithwyr proffesiynol yn yr achos hwn yn ymwybodol eu bod gweithredu mewn ffordd wahanol na newydd. Fodd bynnag, cafodd hen reolau'r gwasanaethau unigol eu plygu a'u torri ar sail yr ideoleg newydd hon o'r ffurfiant rhyngasiantaeth newydd[xiii].

**Sylw:**

**Mae'r enghraifft yn dangos effaith dysgu helaeth ar arfer proffesiynol a'r canlyniad gwell gall defnyddiwr y gwasanaeth ei brofi. Mae cyd-drefnu yn mynd tu hwnt i weithio mewn partneriaeth tuag at ddatblygu arfer proffesiynol sy'n canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.**

**Cwestiynau allweddol:**


**Sut gallwn ni ganolbwyntio'n well ar y 'plentyn cyfan' neu'r dysgwr mewn arfer amlbroffesiynol? Sut gallwn ni ddatblygu 'cwlwm-weithio' rhyngbroffesiynol sy'n rhannu gwybodaeth ac sy'n hyrwyddo newid diwylliannol a strwythurol mewn proffesiynau? Sut gallwn ni hwyluso achosion o 'fentro' a newid rheolau sy'n arwain at arfer mwy effeithiol?**

# Gwybodaeth bellach

Mae'r adolygiad hwn o ganfyddiadau'r TLRP yn nodi nifer o faterion sy'n bwysig i'r gwaith o ddatblygu polisi ac arfer addysgol yng Nghymru.

**Un o'r ffactorau mawr sy'n cyfrannu at allgau addysgol yw methiant strwythurau ysgol/coleg – y cwricwlwm, asesu, trefniadaeth yr ysgol – i ystyried dylanwadau'r teulu ehangach a'r amgylchedd diwylliannol ar gynnydd a deilliannau dysgu.**

Mae Cymru wedi gwneud camau pwysig i'r cyfeiriad hwn – yn bennaf datblygiadau newydd y cwricwlwm yn y blynyddoedd ysgol cyn statudol, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 4, a'r trefniadau newydd ar gyfer asesu'r cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, credwn mai i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion mae'r goblygiadau polisi cliriaf. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cyfeirio at bwysigrwydd 'gweithio gydag eraill'. Mae'r adran hon o'r fframwaith yn cynnwys llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar welliant i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hallgáu, ac mae'n mynd ati'n glir i ymdrin â nifer o'r materion a godir yn yr adolygiad hwn. Serch hynny, mae canlyniadau'r adolygiad hwn yn awgrymu bod angen i elfen y teulu a'r gymuned ategu adrannau eraill o'r fframwaith, megis y cwricwlwm ac addysgu. Mae'r fframwaith yn dangos cydberthynas ar dair lefel rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr awdurdod lleol, yr ysgol a'r ystafell ddosbarth, ac mae'n nodi'r rhyngweithio rhwng y lefelau gwahanol hyn o'r system addysg. Yn y diagram wedi'i addasu a geir isod, rydym wedi cynnwys dimensiwn ychwanegol rhieni, gofalwyr a'r gymuned gan gydweithredu'n gyfartal â'r tair lefel wreiddiol.




Rydym yn cydnabod o bosibl na fydd yn realistig disgwyl i'r fframwaith gael ei ail-lunio yn y ffordd hon. Serch hynny, un o oblygiadau canfyddiadau'r adolygiad yw bod cydnabod a chynnwys diwylliant y teulu a'r gymuned yn hanfodol hollbwysig ar gyfer effeithiolrwydd ysgol a bod angen gwella deilliannau i'r rhai sydd dan yr anfantais fwyaf a'r rhai sydd wedi'u hallgáu.

Mae rhai o'r prosiectau a adolygwyd, er enghraifft, y Prosiect Cyfnewid Gwybodaeth rhwng y Cartref a'r Ysgol, yn cynnig awgrymiadau ar gyfer arfer a all ysgogi a chefnogi cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol sydd yn ei dro yn datblygu cyfranogiad a chyflawniad y dysgwyr.

**Mae rôl yr athro/athrawes yn ganolog i ddatblygu arfer cynhwysol.**

Dengys ymchwil y TLRP y gall ymchwil weithredu fod yn ffordd effeithiol o gynnwys athrawon a dysgwyr yn y broses o newid yr ystafell ddosbarth. Caiff hyn ei adleisio yn rhan 'Rhwydweithiau Arfer Proffesiynol' y fframwaith, sy'n cydnabod y dylai'r rhain fod 'yn seiliedig ar ymholi' a hyrwyddo 'credoau a dealltwriaeth a rennir'. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn nodi gall y math hwn o DPP ddatblygu cynhwysiant, ac mae'r prosiectau a adolygwyd, er enghraifft, y Prosiect Dysgu Cydradd: Hwyluso Ymgysylltiad Athrawon ag Arfer Mwy Cynhwysol, yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am y strwythurau ysgol a all alluogi arfer myfyriol athrawon. Gellir defnyddio canfyddiadau'r prosiectau TLRP i ategu'r broses o weithredu'r fframwaith mewn perthynas â chynhwysiant addysgol.

**Mae gwaith amlasiantaeth effeithiol yn hollbwysig i ddysgwyr sy'n cael eu hallgáu neu sydd mewn perygl o gael eu hallgáu.**

Mae Adroddiad Beecham ac Agenda Creu'r Cysylltiadau yn galw am gydweithredu rhyngasiantaethol mwy effeithiol. Mae'r elfen 'Gweithio gydag Eraill' o'r fframwaith yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a'r Llywodraeth i wella effeithiolrwydd ysgolion. Mae canlyniadau'r adolygiad yn awgrymu bod angen ystyried ffyrdd newydd a fydd

yn gwella effeithiolrwydd cydweithio. Mae'r Prosiect Dysgu mewn Gwaith Rhyngasiantaeth ac ar ei Gyfer yn cynnig awgrymiadau ar gyfer sut i ddatblygu mathau newydd o arfer sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, tra'n cynnal rhwydwaith cymorth hyblyg a dibynadwy drwy gydweithredu rhyngasiantaethol.

Mae canlyniadau'r adolygiad hwn yn cynnig llawer o gymorth o ran 'llwybr teithio' Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol. Fodd bynnag, er bod llawer o gysondeb rhwng y dystiolaeth a pholisi'r Llywodraeth, gall canfyddiadau'r TLRP hefyd gynnig heriau ynghyd ag enghreifftiau o arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a allai gael ei fabwysiadu yng Nghymru. Gallai hyn wella effeithiolrwydd addysg i'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o gael eu hallgáu'n gymdeithasol.

# Cyfeiriadau


Adamson, Dave (2009) *Still Living on the Edge: Poverty and Disadvantage in Wales, Contemporary Wales, Cyfrol 21*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Ainscow, M., Booth, T. a Dyson, D. (2006) *Improving Schools, Developing Inclusion.* Llundain: Routledge.

Baker, D., Street, B; Tomlin, A. (2003) *Mathematics as social: understanding relationships between home and school numeracy practices. For the learning of mathematics.* 23, 3, tudalennau 11–15.

Beecham, J. (2006). *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd (Cymru).* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Biesta, G. et al (2008) *Strategies for improving learning through the life-course: The Learning Lives Project.* Llundain: The Teaching and Learning Research Programme.

Howes, A., Davies, S.M.B. a Fox, S. (2009) *Improving the Context for Inclusion.* Llundain: Routledge.

Moll, L. (gol) (1992) *Vygotsky and Education.* Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Nunes, T., Schliemann, A. D., a Carraher, D. G. (1993). *Street mathematics and school mathematics.* Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.


# Nodiadau

**i.** **Ainscow et al, 2006**
**ii.** **Adamson, 2009**
**iii.** **Biesta et al 2008: 5**
**iv.** **Biesta et al 2008: 7**
**v.** **Moll, 1992**
**vi.** **Nunes et al., 1993, Baker, Street a Tomlin 2003**
**vii.** **www.educationalinclusion.org**
**viii.** **www.gtce.org.uk/teachers/rft/inclusion1009/**
**ix.** **Ceir rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth hon ac astudiaethau achos eraill y prosiect hwn yn: Howes, A. et al (2008) *Improving the Context for Inclusion*, Llundain: Routledge**
**x.** **www.wlga.gov.uk/english/beechamreview2/**
**xi.** **tudalen 4**
**xii.** **Ibid**
**xiii.** **Ibid**